**Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol HSS-17-01(p.3)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | **Rhagfyr 5 2001, 2.00 to 5.00pm** |
| **Lleoliad** | **Ystafell Bwyllgora 3, Cynulliad Cenedlaethol Cymru** |
| **Teitl** | **Goblygiadau'r Cynlluniau Gweithlu 2001 O Ran Staffio** |

## DIBEN

1. Darparu'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gyda: -

- Chanlyniadau Ymarfer Cynllunio'r Gweithlu ar gyfer 2001, gan ddangos safbwynt y Gwasanaeth ynghylch eu hanghenion staffio yn y dyfodol

- Goblygiadau addysg a hyfforddiant a recriwtio a chadw'r anghenion staffio hyn.

## CYFLWYNIAD

2. Cyflwynwyd i'r Pwyllgor ganlyniadau Adolygiad Cynllunio Gweithlu Cymru ar 24 Hydref 2001. Yr oedd y dull o adolygu'r cynlluniau yn ddeublyg, gyda'r cyntaf yn edrych ar yr ymarfer casglu data presennol a'r ail yn edrych ar strwythurau gwneud penderfyniadau ym maes addysg a hyfforddiant. Cytunwyd y byddai canlyniadau cylch cynllunio'r gweithlu 2001 yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor ym mis Rhagfyr.

3. Mae'r Cynllun i Gymru 2001 a gyflwynwyd gan Brif Weinidog Cymru ym mis Hydref 2001 yn cydnabod yr ymrwymiad i gynyddu lefelau staffio a'r nifer o weithwyr proffesiynol ym maes iechyd sy'n hyfforddi, gan ymrwymo i gynyddu'r nifer o feddygon sy'n hyfforddi gan 65% a'r nifer o nyrsys sy'n hyfforddi gan 35% erbyn 2003-2004.

4. Bydd y papur hwn yn ceisio cynnwys y ddau ymrwymiad hyn. Mae'n darparu manylion am y Cynllun Gweithlu i Gymru Gyfan, a gynhyrchwyd drwy gyfuno'r holl gynlluniau unigol a gyflwynwyd gan yr Ymddiriedolaethau a'r Awdurdodau Iechyd yng Nghymru. Mae'r cynllun yn cynnwys darlun tymor canolig o'r anghenion staffio. Trafodir hefyd y materion hir-dymor a thymor byr a fydd yn cael effaith yn nhermau diwallu'r anghenion a ganfuwyd – yn yr hir-dymor yr Adolygiad Adnoddau Addysg a Hyfforddiant; ac yn y tymor canolig a'r tymor byr gweithgareddau recriwtio a chadw a'r cynyddu presennol yn y comisiynau hyfforddiant.

## CEFNDIR

5. Mae'r ymarfer casglu data ar gyfer cynllunio'r gweithlu wedi newid yn sylweddol yn 2001.

6. Yr oedd Adolygiad Cynllunio Gweithlu Cymru yn cydnabod nad oedd y cyfanswm o ddata a gasglwyd eisoes yn ddigonol bellach i gwrdd ag anghenion Cynulliad Cenedlaethol Cymru am wybodaeth. Mae’r wybodaeth a gesglir wedi newid yn fawr dros y 10 mlynedd diwethaf o fod yn holl-gynhwysfawr i ymarfer lle cesglir llawer llai o wybodaeth yn y blynyddoedd diweddar.

7. O 1988 hyd 1994 datblygwyd yn raddol sgiliau cynllunio’r gweithlu gan yr NHS yng Nghymru. Ers 1995 mae’r newid yn y pwyslais newidiol ar bwysigrwydd cynllunio’r gweithlu a’r ymarfer casglu data llai wedi arwain at leihad yn ansawdd yr wybodaeth a ddarperir.

8. Ers 1992, defnyddiwyd cynlluniau’r gweithlu i ddarparu gwybodaeth am anghenion staff newydd eu cymhwyso am addysg a hyfforddiant ar gyfer nyrsys, galwedigaethau sy’n ymwneud â meddyginiaeth a staff proffesiynol, technegol a gwyddonol. Defnyddir yr wybodaeth hon ar gyfer y broses gomisiynu addysg a hyfforddiant.

9. Nid yw’r penderfyniadau ynghylch addysg a hyfforddiant meddygol wedi ffurfio rhan o’r broses uchod. Gwnaethpwyd penderfyniadau ar y nifer sy’n cael addysg a hyfforddiant meddygol ar sail Cymru a Lloegr gan bwyllgorau lle rhoddwyd cynrychiolaeth i Gymru. Cytunwyd ar sut i rannu’r cyfanswm yn arbenigeddau ar lefel Cymru gyfan yn seiliedig ar y cyngor proffesiynol a dderbyniwyd.

10. Mae’r ffactorau sydd wedi eu hystyried yn y broses eleni felly yn cynnwys yr angen i integreiddio cynllunio’r gweithlu meddygol a’r gweithlu nad ydynt yn feddygol a’r angen i sicrhau bod gofynion staffio y darparwyr gofal iechyd eraill yn cael eu hystyried, gan gynnwys y Gwasanaethau Cymdeithasol, y sectorau preifat a gwirfoddol, y gwasanaeth carchardai a’r lluoedd arfog. Yr angen i sicrhau bod y data yn addas at y pwrpas yw prif amcan y dull newydd hwn o weithredu ac mae hyfforddiant helaeth ar waith er mwyn sicrhau bod hyn yn cael ei gyflawni.

11. Casglwyd data eleni ar gyfer yr holl grwpiau staff yn y sectorau gofal sylfaenol ac eilaidd. Mae’r data yn cynnwys gwybodaeth am staff cymwysedig a staff cynnal, staff proffesiynol, a staff clercol, rheoli a chynorthwyol.

12. Mae’r newid mwyaf yn y ffordd y casglwyd y data yn 2001 yn perthyn i "angen". Yn y gorffennol mae cynlluniau gweithlu wedi eu paratoi ar sail lefelau cyllido amlwg; eleni gofynnwyd i’r Ymddiriedolaethau seilio’u cynlluniau ar yr hyn sydd ei angen ar eu staff i ddarparu gofal yn y dyfodol o safbwynt proffesiynol ac o safbwynt rheoli.

**DATA CYNLLUNIO’R GWEITHLU AR GYFER 2001**

13. Mae’r wybodaeth yn Atodiad A yn darparu manylion fesul grwpiau staff o’r: -

- Cyfansymiau o Staff Cymru Gyfan sydd â swydd neu Swyddi Gwag fel ag y maent ym mis Rhagfyr 2000 ( fel y nodwyd gan Ymddiriedolaethau ac Awdurdodau Iechyd)

- Gofynion Staffio Cychwynnol ar gyfer Cymru Gyfan. (Ar hyn o bryd yn cael eu dilysu)
- Nifer y myfyrwyr gofal iechyd proffesiynol a fydd wedi cwblhau eu hyfforddiant erbyn 2005.

14. Mae’r data sy’n dod i’r amlwg yn dilyn y Cynlluniau Gweithlu eleni yn cael ei ddilysu ar hyn o bryd gan yr Ymddiriedolaethau a’r Galwedigaethau i sicrhau ei fod yn gadarn.

15. Yr oedd y cynlluniau eleni wedi eu seilio ar ‘angen’ ac nid ar y cyllid sydd ar gael. Er i’r cynlluniau ddangos cynnydd yn lefelau staffio’r dyfodol o ganlyniad, nid yw’n gwbl glir pa elfennau o’r cynnydd hwn sy’n perthyn i ddatblygiadau yn y gwasanaeth a ddarperir ( naill ai wedi eu cytuno neu o dan o ystyriaeth) a pha elfennau sy’n ymwneud â chynnal neu wella’r gwasanaethau presennol.

16. Mae’n ofynnol i’r Ymddiriedolaethau arwyddo’r holl gynlluniau terfynol er mwyn sicrhau eu cywirdeb. Rhaid iddynt roi ystyriaeth i’r ffaith er bod y cynlluniau yn seiliedig ar angen ni ddylent fod yn uchelgeisiol neu yn ryw fath o ‘restr ddymuniadau’. Serch hynny ar lefel Cymru gyfan rhagwelir cynnydd sylweddol ar gyfer y mwyafrif o grwpiau staff.

**MATERION I’W NODI MEWN PERTHYNAS Â’R DATA CYNLLUNIO’R**

**GWEITHLU A GASGLWYD**

17. Gan fod gofynion data’r gwasanaeth wedi ei leihau yn y 10 mlynedd diwethaf, mae’r sgiliau cynllunio’r gweithlu ar bob lefel drwy’r Gwasanaeth wedi lleihau hefyd.

18. Mae’r Cynulliad wedi dangos ei ymrwymiad i sicrhau bod gan yr NHS y gweithlu angenrheidiol drwy gyflwyno tîm cynllunio’r gweithlu newydd. Mae’r tîm wedi gweithio’n agos gyda’r Ymddiriedolaethau yn ystod 2001 i gynhyrchu cynlluniau ond yr Ymddiriedolaethau eu hunain sy’n gwybod beth yw eu hanghenion datblygu a’u diffygion. Mae newid i gynllunio i fod yn seiliedig ar angen yn hytrach nag ar lefelau cyllido wedi cael cryn effaith ar y Gwasanaeth. Mae rhaglen hyfforddiant dwys ar y gweill gyda’r Ymddiriedolaethau i gynyddu’u sgiliau.

19. Nid yw amseriad y rhaglen, sydd yn gysylltiedig â’r broses comisiynu hyfforddiant ac addysg, yn hyblyg. Golyga’r broses eleni nad yw goblygiadau staffio rhai datblygiadau polisi a rhai o’r Fframweithiau Strategol Cenedlaethol wedi eu cynnwys yng nghynlluniau 2001. O dan y strwythurau newydd i benderfynu ar gynllunio’r gweithlu bydd rhai o’r goblygiadau staffio hyn yn cael eu hamlygu gan y "Grwpiau Gorchwyl a Gorffen ar Ofal". Serch hynny, bydd rhaid eu bwydo drwy’r broses Cynllunio’r Gweithlu hefyd.

20. Yn yr hir-dymor, rhaid sicrhau bod cynllunio’r gweithlu yn broses barhaus. Wrth i’r ffordd y mae’r gwasanaeth yn cyflwyno gofal iechyd newid, bydd y gweithwyr proffesiynol sydd eu hangen er mwyn darparu’r gwasanaethau hyn yn newid. Gall yr anghenion staffio sydd gan y gwasanaeth ar gyfer y flwyddyn nesaf fod yn wahanol iawn i’w anghenion ym mhen 2 flynedd. Gall datblygiadau a

blaenoriaethau’r gwasanaeth newid yn ystod yr amser hwnnw, efallai y bydd gweithdrefnau newydd ac arloesol wedi eu cyflwyno a bydd materion amrywiaeth sgiliau wedi eu harchwilio. Rhaid i ni sicrhau ein bod yn cynnal hyblygrwydd wrth gynllunio’r gweithlu a chomisiynu addysg a hyfforddiant.

21. Dengys yr wybodaeth a ddaeth i law oddi wrth y partneriaid NHS sy’n cynnig gofal iechyd ( gan gynnwys gwasanaethau cymdeithasol a chartrefi nyrsio preifat) bod y sector preifat yn cyflogi staff sydd newydd gymhwyso a bydd yr wybodaeth hon yn bwydo’r Adolygiad o Adnoddau, a drafodir yn fanylach yn y papur hwn.

**GOFAL SYLFAENOL**

22. Mae cynllunio ar gyfer gofal sylfaenol yn broses gwbl newydd. Ychydig iawn o sgiliau sydd yn bodoli i fynd i’r afael â’r broses o fewn y Grwpiau Iechyd Lleol. O ganlyniad felly, mae’r wybodaeth a ddarparwyd gan y Grwpiau Iechyd Lleol drwy’r Awdurdodau Iechyd yn wan iawn ac mewn rhai achosion yn anghyflawn. Felly, ni ellir cyflwyno’r wybodaeth i’r Pwyllgor hyd nes y bydd prosiect arbenigol trylwyr wedi ei gwblhau er mwyn asesu gofynion y sector yn gywir.

23. Cydnabyddir bod gan Gofal Sylfaenol faterion staffio penodol sydd angen mynd i’r afael â hwy fel mater o bwys. Yn enwedig bydd rhaid mynd i’r afael â recriwtio a chadw meddygon teulu gyda buddsoddiad o £1miliwn yn 2001 er mwyn cyflwyno cynlluniau recriwtio a chadw drwy Gymru. Mae’r niferoedd sy’n hyfforddi yn cael ei archwilio er mwyn darparu sefydlogrwydd yn y tymor canolig a’r hir-dymor a rhoddir manylion am fwy o gomisiynau hyfforddiant yn y papur hwn.

24. Cynhelir ymarfer ar wahân ar gyfer cynllunio’r gweithlu ar gyfer Iechyd Cyhoeddus.

25. Cynhelir rhaglen hyfforddiant ar gyfer cynllunio’r gweithlu gofal sylfaenol yn 2002.

**Y STAFF SYDD AR GAEL**

26. Rhoddir manylion isod ar ba weithgareddau y mae’r Cynulliad Cenedlaethol yn eu cyflwyno i wella’i bolisïau recriwtio a chadw. Bydd recriwtio o dramor yn chwarae rhan bwysig mewn unrhyw strategaeth dymor byr neu ganolig o ystyried y nifer o staff profiadol sydd ar gael yng Nghymru a gweddill y DU. Yn y dyfodol mae’n debyg mai’r recriwtiaid newydd gymhwyso fydd y ffynhonnell staff fwyaf sydd ar gael i’r NHS.Nodir yn y papur hwn fanylion ar sut y mae’r comisiynau hyfforddiant wedi cynyddu er mwyn cwrdd â’r targedau a nodwyd yn "Gwella Iechyd yng Nghymru" a’r "Cynllun i Gymru 2001".

**ADDYSG A HYFFORDDIANT**

27. Mae’r "Cynllun i Gymru 2001" yn darparu ymrwymiad i gynyddu’r nifer o feddygon a nyrsys sy’n hyfforddi gan 65% a 35% yn eu tro erbyn 2003 -2004. Mae’r cynnydd hwn yn cael ei ariannu o fewn cyllideb y Cynulliad.

28. Mae’r nifer o is-raddedigion meddygol sy’n cychwyn hyfforddiant mewn blwyddyn wedi cynyddu gan ryw 100 myfyriwr ers 1999 (roedd 65 ychwanegol yn 2001), gan gynyddu’r rhai a dderbynnir mewn blwyddyn i 290, cynnydd o 53%, tua gyflawni’r targed a nodir yn y "Cynllun i Gymru 2001". Y cyfanswm o fyfyrwyr meddygol a fydd wedi eu cymhwyso erbyn 2005 fydd 985.

29. Ar hyn o bryd mae yna 758 o swyddi i Gofrestryddion Arbenigol yng Nghymru ac erbyn 2003 byddant wedi cynyddu gan 60, a 189 o Swyddogion T sydd heb eu cofrestru gydag 19 ychwanegol yn 2002 a 47 ychwanegol yn 2004. Mae adolygiad o raddfa Uwch Swyddog T ar y gweill yng Nghymru a Lloegr.

30. Mae’r nifer o Gofrestryddion Meddygol wedi cynyddu o 110 yn 2000 i 119 yn 2001 gan gynyddu i 128 yn 2002 a 137 yn 2003.

31. Mae nifer y darparwyr a gomisiynwyd ar gyfer hyfforddi nyrsys cyn iddynt gofrestru wedi cynyddu o 904 y flwyddyn yn 1999 i 1203 yn 2001. Roedd 2,664 o lefydd hyfforddi nyrsys dan gontract yng Nghymru yn 1999-2000. Cynyddodd hyn i 2,897 yn 2000-2001 a 3,216 yn 2001-2002. Golyga hyn ein bod eisoes wedi gweld cynnydd o 27% mewn llefydd hyfforddi a disgwyliwn gyrraedd y cynnydd llawn o 35% erbyn 2002-2003. Erbyn 2004, bydd bron i 4,300 o nyrsys, bydwragedd ac ymwelwyr iechyd yn gorffen hyfforddiant yng Nghymru, a 6000 erbyn 2005.

32. Disgwylir i 1,871 o therapyddion a gweithwyr proffesiynol eraill orffen eu hyfforddiant erbyn 2005.

**RECRIWTIO A CHADW**

- **Strategaethau Recriwtio a Chadw Ymddiriedolaethau'r NHS -** Mae pob Ymddiriedolaeth wedi datblygu Strategaeth Recriwtio a Chadw mewn partneriaeth gyda sefydliadau staff i fynd i'r afael â materion lleol a materion sy'n ymwneud â phrinder yn y galwedigaethau. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol ar fin datblygu Fframwaith Recriwtio a Chadw ynghyd â Fframwaith ar gyfer Gwneud NHS Cymru yn Well Cyflogwr. Erbyn Gwanwyn 2002 bydd Timau Arloesedd Adnoddau Dynol wedi cael eu sefydlu i fonitro'r arferion cyflogi yn Ymddiriedolaethau'r NHS.

  Un mater allweddol ar gyfer recriwtio a chadw staff yn yr NHS yw hyblygrwydd y swyddi. Bydd targed yn cael ei ddatblygu ar gyfer yr Ymddiriedolaethau yn y maes hwn gan gynnwys gwerthuso pa mor effeithiol yw'r mentrau. Mae Uned Cyfle Cyfartal NHS Cymru yn paratoi cyfeirlyfr o fentrau i wella hyblygrwydd y swyddi yn NHS Cymru fel y gellir rhannu arferion da trwy'r gwasanaeth**.**

- **Dychwelyd i Waith -** Y llynedd, aeth o leiaf 145 o nyrsys ar y cyrsiau Dychwelyd i Waith. Disgwylir y bydd nifer y rhai sy'n dychwelyd i waith yn cynyddu eleni.

  Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn annog gweithwyr proffesiynol iechyd sydd, am wahanol

resymau, wedi peidio ag arfer eu crefft, i adennill eu sgiliau a'u hyder ar gyrsiau Dychwelyd i Waith trwy ddarparu:

- Cyrsiau gloywi di-dâl
- Cymorth ariannol o £1000 tra'n ail-hyfforddi
- Cymorth gyda chostau gwarchod plant

Mae'r Cynulliad wedi penodi Cydgysylltydd Recriwtio, Cadw a Dychwelyd i Waith i ymestyn y mentrau i'r Galwedigaethau Iechyd Cysylltiedig gan ddechrau gyda'r rhai sydd â'r prinder mwyaf.

- **Recriwtio o Wledydd Tramor -** Yn y tymor hir, mae'r Cynulliad yn bwriadu hyfforddi digon o staff fel y gall yr NHS recriwtio'n bennaf o Gymru a'r DU. Serch hynny, er mwyn mynd i'r afael ag anawsterau brys o ran recriwtio, mae'r Cynulliad yn gweithio gyda'r Ymddiriedolaethau o fewn NHS Cymru i ddatblygu dull cydlynus o recriwtio o wledydd tramor gan sicrhau bod yr Ymddiriedolaethau yn cael cyfle i gyflogi staff hyfforddedig o wledydd eraill.

  Y llynedd, cyflogwyd dros 600 o nyrsys hyfforddedig o wledydd tramor - yn bennaf o Ynysoedd y Philipinau - i weithio mewn Ymddiriedolaethau NHS yng Nghymru.

  Mae Cydgysylltydd Recriwtio Rhyngwladol Cymru-gyfan yn cael ei benodi i helpu cyflogwyr Cymru ddod o hyd i staff dros ben o wledydd eraill yn y dull mwyaf effeithiol ac effeithlon.

  Cyn bo hir, bydd Cod Ymarfer yn seiliedig ar yr un a ddatblygwyd gan yr Adran Iechyd yn cael ei ddosbarthu i gyflogwyr yr NHS i sicrhau y cedwir at yr arferion gorau wrth recriwtio yn egwyddorol a chost effeithiol.

- **Arolwg o Swyddi Gwag yn yr NHS -** Mae system wedi cael ei rhoi ar waith i gasglu data yn rheolaidd am swyddi gwag hir-dymor ym mhob un o grwpiau staff yr NHS. Erbyn hyn, mae'r data hwn yn cael ei gasglu ddwywaith y flwyddyn - ar ddiwedd Mawrth a diwedd Medi - ac mae'n dangos lle mae prinder staff yn ôl galwedigaeth a chyflogwr. Bydd yn sylfaen ar gyfer cytuno ar y cyfraddau swyddi gwag i anelu atynt yn NHS Cymru ac yn ddefnyddiol i fonitro'r sefyllfa yng Nghymru o ran staffio. Ar 31 Mawrth 2001 y gyfradd swyddi gwag ar gyfer holl staff yr NHS yng Nghymru oedd 2.54%.

  Bwriedir ymestyn y system gasglu data i gynnwys cyfraddau trosiant a chyfraddau salwch a ddefnyddir at ddibenion monitro.

- **Mentrau gwarchod plant -** Mae cyllid wedi ei ddarparu i bob cyflogwr yn yr NHS am y tair blynedd nesaf i'w galluogi i ddatblygu cymorth neu gyfleusterau gwarchod plant, megis ychwanegu at y llefydd gwarchod plant, cyflogi cydgysylltydd gwarchod plant neu gynnig talebau cymhorthdal gwarchod plant.
- **Gwybodaeth am Yrfaoedd yn yr NHS -** Mae'r Cynulliad wedi penodi Rheolwr Prosiect

Gwybodaeth Gyrfaoedd yr NHS i ddatblygu strategaeth ar gyfer rhoi gwybodaeth am yrfaoedd ym maes gofal iechyd yng Nghymru ar gyfer holl Alwedigaethau'r NHS. Bydd hyn yn helpu i hyfforddi a recriwtio staff NHS dros y tymor hir.

Yn ddiweddar, cynhyrchodd y Cynulliad fideo Gyrfaoedd yn yr NHS i hybu'r amrywiaeth eang o yrfaoedd sydd ar gael yn yr NHS. Caiff y fideo hwn ei ddosbarthu yn ddwyieithog i ysgolion a cholegau ynghyd â gwybodaeth fanwl am yrfaoedd yn yr NHS.

Erbyn hyn mae'r Cynulliad yn trefnu bod gan NHS Cymru stondin mewn ffeiriau swyddi a digwyddiadau gyrfaoedd yng Nghymru a'r DU er mwyn gwella delwedd NHS Cymru fel cyflogwr a recriwtio'n uniongyrchol i swyddi gwag.

Ym mis Ebrill 2002 bydd y Cynulliad yn cyd-drefnu Wythnos Agored Genedlaethol ar gyfer yr NHS mewn partneriaeth gyda chyflogwyr yn yr NHS, cyrff proffesiynol, Sefydliadau Addysg ac ysgolion i wella delwedd yr NHS fel cyflogwr.

**ADOLYGU ADNODDAU'R NHS A MATERION ERAILL YN YMWNEUD Â CHYLLID, ANSAWDD A PHERFFORMIAD**

- Ers i'r Cynulliad Cenedlaethol gael ei ffurfio, yn ogystal â buddsoddi mewn hyfforddiant meddygol, mae'r Gweinidogion hefyd wedi rhoi cyllid ychwanegol i addysg a hyfforddiant anfeddygol. Rhwng 1999 a nawr gwelwyd 20% o gynnydd mewn cyllid (27% o lefydd ychwanegol) sy'n cynnwys cynnydd o 5% eleni. Mae 5% arall o gyllid wedi'i gytuno ar gyfer 2002. Mae hynny'n golygu cynnydd cyffredinol o 25% ers i'r Cynulliad ddod i rym.
- Mae Adolygiad yn cael ei gynnal o'r holl Ddarparwyr Addysg i benderfynu a oes ganddynt le ar hyn o bryd ar gyfer y myfyrwyr ychwanegol y cyfeirir atynt yn y cynlluniau gweithlu. Rydym wedi clustnodi pum elfen a allai effeithio ar eu gallu i dyfu:

- Y lle sydd yn yr adeiladau
- Nifer y darpar fyfyrwyr addas sy'n gwneud cais am gyrsiau
- A oes darlithwyr ychwanegol ar gael
- Lleoliadau clinigol addas
- A oes llety ar gael ar gyfer y myfyrwyr

33. Gallai cyfuniad o unrhyw rai o'r uchod gyfyngu ar y gallu i ehangu. Ar hyn o bryd rydym yn ceisio clustnodi pryd fydd pob darparwr yn cael eu cyfyngu gan bob un o'r elfennau a restrir uchod ac asesu dulliau posibl o ddatrys yr anawsterau hynny.

34. Mae'n bwysig nodi y cafwyd cynnydd o dros 27% yn nifer y myfyrwyr heb roi cyllid cyfalaf ychwanegol i'r prifysgolion i ddelio â'r cynnydd cyflym hwn.

35. Bydd y goblygiadau i'r NHS o ran costau yn driphlyg:

- Costau Refeniw Rheolaidd yn ymwneud ag Addysg a Hyfforddiant (fydd eu hangen o 2002/03 ymlaen)
- Cyllid Cyfalaf a Datblygu Achlysurol i fynd i'r afael â'r ffactorau sy'n cyfyngu ac ymestyn y cyfnod cyn i'r darparwyr lenwi.
- Costau Refeniw Rheolaidd yn ymwneud â'r cynnydd yn y lefelau staffio o fewn y Gwasanaeth (h. y. i sicrhau y bydd swyddi ar gyfer y myfyrwyr ychwanegol hyn yn yr NHS yng Nghymru pan fyddant wedi gorffen eu hyfforddiant).

36. Ar hyn o bryd cynhelir adolygiad llawn a chynhwysfawr o'r ddarpariaeth addysg yn NHS Cymru a bydd yn archwilio pob dull posibl o ehangu'r adnoddau (cyn argymell buddsoddiad cyfalaf) gan gynnwys:

- Defnyddio'r Diwrnod Prifysgol yn well
- "Prynu i mewn" i systemau canolog llogi ystafelloedd y Brifysgol
- Amrywiaeth y cyrsiau hyfforddi
- Hyfforddiant hyblyg
- Symud i ffwrdd oddi wrth addysg tuag at ddiwylliant o ddysgu

37. Mae'n amlwg o'r adroddiadau cyntaf bod ambell ddarparwr eisoes ar fin llenwi oherwydd y cynnydd diweddar yn nifer y myfyrwyr. Felly, mae'n hanfodol bod unrhyw gynlluniau datblygu yn digwydd yn raddol ac yn unol â rhaglenni ehangu cyffredinol y Prifysgolion a'u strategaethau ar gyfer eu hystadau.

38. Hefyd, mae'n rhaid cynllunio tyfiant yn ofalus i sicrhau y gellir sicrhau ansawdd ac y ceir gwelliant yn y meysydd canlynol:

- Dewis myfyrwyr

- Gostyngiad graddol yn nifer y myfyrwyr
- Cyfraddau llwyddo
- Addasrwydd y lleoliadau clinigol
- Y Gymhareb Staff:Myfyrwyr (a bennir gan y cyrff proffesiynol sy'n dilysu)

39. Ymdrinnir â'r holl faterion hyn yn yr Adolygiad o Adnoddau a bydd angen i'r argymhellion sy'n codi gael eu hystyried yn ofalus gan mai'r bwriad wrth weithredu'r argymhellion yw galluogi Cymru i fod yn hunan-gynhaliol o ran darparu ein Hadnoddau Dynol ein hunain, a dibynnu llai ar staff o wledydd tramor.

**CASGLIADAU**

40. Roedd y "Cynllun i Gymru 2001" yn ymrwymedig i gynyddu nifer y staff. Bydd y Pwyllgor yn awyddus i nodi bod yr ystadegau swyddogol a gyhoeddwyd gennym yn dangos bod nifer y staff eisoes

yn codi, o 68,623 (53,347.3 Llawn Amser Cyfatebol) o staff a gyflogwyd yn uniongyrchol yn 1997 i 74,645 (55,675 Llawn Amser Cyfatebol) yn 2000. Dyma gynnydd o 8.8% mewn tair blynedd. O gynnwys Contractwyr yn yr NHS (Meddygon Teulu, Deintyddion etc) mae'r ffigurau hyn yn cynyddu o 77,961 yn 1997 i 84,263 yn 2000, sef cynnydd cyffredinol o 8.1%. Disgwylir y bydd y ffigur hwn yn cynyddu eto o gofio y cytunwyd i ariannu 88 o swyddi ymgynghorwyr ychwanegol yn 2001. Mae'r mwyafrif o'r 88 o ymgynghorwyr hyn eisoes wedi dechrau ar eu gwaith o fewn yr NHS yng Nghymru. Bydd data 2001 ar gael o fis Chwefror 2902 ymlaen.

41. Mae llawer o waith eisoes wedi'i wneud, ac yn parhau i gael ei wneud, i gynyddu'r nifer sy'n cael eu comisiynu i ddarparu addysg a hyfforddiant. Mae'r "Cynllun" yn ymrwymo'n fwy manwl i gynyddu nifer y meddygon dan hyfforddiant i 65% a nyrsys dan hyfforddiant i 35% erbyn 2003-2004. Mae'r nifer sy'n cael eu comisiynu i hyfforddi meddygon a nyrsys yn cynyddu yn unol â'r targedau hyn. Mae nifer y myfyrwyr meddygol eisoes wedi cynyddu gan 53%. Gwelwyd cynnydd o 27% yn nifer y nyrsys dan hyfforddiant yn 2001-2002. Disgwylir y bydd hyn wedi cynyddu i 35% erbyn 2002-2003 ac wedi pasio'r targed erbyn 2003-2004.

42. Mae'r broses o gynllunio'r gweithlu yn cwmpasu pum mlynedd. Yn ogystal â'r cyllid sydd ar gael, mae'n anorfod bod ein gallu i gwrdd â'r lefelau staffio a gynllunnir, ac a nodir yng Nghynlluniau Gweithlu 2001, yn gysylltiedig â'r nifer sy'n derbyn addysg a hyfforddiant a'n gallu i recriwtio staff profiadol. Dylai'r cynnydd yn y nifer sy'n cael eu comisiynu olygu cynnydd yn y lefelau staffio yn yr NHS yng Nghymru o 2003 ymlaen. Y nod yw diwallu anghenion y gwasanaeth o ran staffio erbyn 2010 gan gadw mewn cof y bydd y gofynion hyn yn newid bob blwyddyn (gweler paragraff 20).

**ARGYMHELLION**

43. Gwahoddir y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i nodi

- Y bydd yr Adolygiad o Adnoddau yn cael effaith uniongyrchol ar ein gallu yn y dyfodol i ddiwallu anghenion y Gwasanaethau o ran staffio ac y dylid cyflwyno canlyniad yr Adolygiad i'r Pwyllgor maes o law.

- Y bydd angen i unrhyw gynnydd yn yr hyfforddiant sy'n cael ei gomisiynu, a thrwy hynny, y cynnydd posibl yn nifer y staff sydd newydd gymhwyso, gael ei ystyried wrth gynllunio'r gyllideb yn y dyfodol o ran y goblygiadau i'r gwasanaeth o gyflogi'r staff ychwanegol.

- Bod gwaith yn parhau i wella gallu gofal sylfaenol i gynllunio eu gweithlu, ac fel mesur dros dro, bod y gwaith yn parhau yn ganolog i asesu a mynd i'r afael â materion gweithlu Meddygon Teulu.

- Y bydd papur arall yn cael ei gyflwyno yn nhymor y Gwanwyn 2002 os caiff ei gymeradwyo gan yr Ymddiriedolaeth a'r Galwedigaethau.

**CYDYMFFURFIAETH YN Y CYNULLIAD**

44. Mae gan y Cynulliad awdurdod dirprwyedig am faterion gweithlu'r NHS o dan adran 2 o Ddeddf NHS 1977. Mae swyddogaethau'r Cynulliad o dan y Ddeddf NHS, fel y maent wedi eu dirprwyo i Brif Weinidog Cymru, wedi cael eu dirprwyo i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Nid oes unrhyw faterion o reoleidd-dra a phriodoldeb.

**Jane Hutt**